

Cyngor Cymuned Mæchell Community Council

COFNODION O GYFARFOD A GYNHALIWDYD NÔS LUN 9/6/2014
MINUTES OF THE MEETING HELD ON MONDAY EVENING 9/6/2014

Presennol / Present

Mrs H Mary Hughes (Cadeirydd / Chair)
Mr Tony Jones (Is-Gadeirydd / Vice Chair)
Cyng. / Cllr. Llinos Medi Huws
Mrs Elaine Rowlands
Mrs Elin Wynne
Mr Jac Jones
Mrs Menna Owen
Mr Richard Hughes
Mrs Helen Mai Beck (Clerc / Clerk)

Croesawu / Welcome

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
The Chair welcomed everyone to the meeting.

1. CCB / AGM

1a. Adroddiad Blynyddol 2013-14 / Yearly Report 2013-14

Darllenodd y Cadeirydd yr adroddiad blynyddol. Fe wnaeth y Cadeirydd sefyll i lawr a rhoi y cyfarfod yn nwylo y Clerc.
The Chair read the annual report. The Chair then stepped down and handed the meeting over to the Clerk.

1b. Adroddiad Cyllid / Financial Report

Trafodwyd y fantolen ac atebodd y Clerc unrhyw gwestiynau. Diolchodd y Cynghorwyr y Clerc am ei gwaith trylwyr.
The balance sheet was discussed and the Clerk answered any questions arising. The Councillors thanked the Clerk for her meticulous work.

1c. Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd / Election of Chair and Vice-Chair

Ethol Cadeirydd – Enwebodd Mr Jac Jones y dylai Mrs Mary Hughes aros yn Gadeirydd er mwyn sefydlogrwydd y Cyngor. Eilwyd gan Mr Tony Jones. Derbynodd Mrs Mary Hughes y Gadair yn ôl.
Election of Chair – Mr Jac Jones nominated Mrs Mary Hughes to remain in the Chair for the Council to have stability for now. Mr Tony Jones seconded the motion. Mrs Mary Hughes accepted.

Ethol Is-Gadeirydd – Enwebodd Mr Jac Jones y dylai Mrs Elin Wynne er mwyn denu aelodau ieuengach a newydd i swyddi o fewn y Cyngor. Eilwyd gan Mrs Elaine Rowlands a cytuno ei fod yn syniad da. Derbynodd Mrs Elin Wynne y safle'r Is-Gadair.
Election of Vice-Chair – Mr Jac Jones nominated Mrs Elin Wynne to attract younger and new members to positions within the Council. Mrs Elaine Rowlands seconded the nomination and agreed this was a good idea. Mrs Elin Wynne accepted the role of Vice-Chair.

2. Ymddiheuriadau / Apologies

Derbynwyd ymddiheuriadau gan Mr Adrian Parry a Mrs Dawn Griffith-Jones
Apologies were received from Mr Adrian Parry a Mrs Dawn Griffith-Jones.

3. Cofnodion / Minutes

Derbynwyd cofnodion cyfarfod 12/5/2014 fel rhai cywir. Cynigwyd gan Mrs Menna Owen ac eilwyd gan Mr Tony Jones.

The minutes were accepted as a true record of the meeting on 12/5/2014. Mrs Menna Owen proposed and Mr Tony Jones seconded.

5. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

- Cyflwyniad gan Mr Richard Foxhall – gohirwyd a gwahoddiwyd i gyfarfod mis Gorffennaf.
Gweithred – Mr Jac Jones i gysylltu â Mr Richard Foxhall.
Presentation by Mr Richard Foxhall – it was postponed and an invitation will be given to attend the July meeting.
Action – Mr Jac Jones to contact Mr Richard Foxhall.
- Scottish Power – Fe wnaeth y Clerc roi y ffeil *Scottish Power* i Mr Jac Jones er mwyn cyrraedd penderfyniad gyda'r mater yma.
Scottish Power – The Clerk gave the Scottish Power file to Mr Jac Jones so the matter could be resolved.
- Gwefan y Cyngor Cymuned – Mrs Elin Wynne a Mr Jac Jones i gael sgwrs gyda Mr Nigel Thomas.
Community Council website – Mrs Elin Wynne and Mr Jac Jones will discuss with Mr Nigel Thomas.
- Cloc y pentref – Dim diweddariad.
Village clock – No update.
- ROSPA – Dim gohebiaeth ynglyn a pryd fydd yr archwiliad yn cael ei wneud.
Gweithred – Mr Jac Jones i chwilio am rif ffôn er mwyn cysylltu â nhw.
ROSPA – No correspondence with regard to when the inspection will take place.
Action – Mr Jac Jones to find a telephone number to contact them.
- Siop y Pentref – Materion mewn llaw. Disgwyl am ddyddiad i gael y goriadau. Mi fydd cyfarfod cyhoeddus yn gobeithio cael ei drefnu cyn diwedd y mis.
Village Shop – Matters in hand. Waiting for a date to receive the keys. A public meeting will hopefully be arranged before the end of the month..

5. Ffyrdd / Highways

- Penderfynwyd gyrru llythyr o ddiolch i'r Adran Briffyrdd i ddiolch am y gwaith yn yr ardal. Er bod y gwaith wedi cael ei gwblhau, mae pryder ynglyn a gor-yrru o Bryn Clyni tuag at Maes Martin. Cafwyd trafodaeth brŵd a phenderfynu gyrru llythyr a gwahoddiad am gyfarfod i drafod y broblem.
Gweithred – Ysgrifennu llythyr i'r Adran Briffyrdd.
It was decided to send a letter of thanks to the Highways Department for the work done in the area. However, the work has been completed but has posed a problem of speeding from Bryn Clyni to wards Maes Martin. After a lively discussion it was decided to send a letter an invitation to discuss the problem.
Action – Write a letter to the Highways Department.
- Derbynwyd cŵyn gan Cyngorydd yn Mynydd Mechell bod yna gwyno ynglyn a gor-yrru. Hefyd mae pryder ynglyn a tamaid o haearn ger giât Bwchanan.
Gweithred – Ysgrifennu llythyr i'r Adran Briffyrdd.
A complaint was received from a Mynydd Mechell Councillor with other complaints of speeding. Also there is a concern with a lump of metal protruding near Bwchanan gate.
Action – Write a letter to the Highways Department.

6. Gohebiaethau / Correspondence

- Derbynwyd ebôst gyda linc i 'Ymgynghoriad ar fynediad i wybodaeth ar Gyngorau Cymuned a Thref'. Dyddiad terfyn 4ydd o Awst 2014. Gadael y Clerc wybod cyn gynted â phosib pa fanylion y maent yn dumuno i fod ar y wê.
An email was received with a link to the consultation on 'Access to Information on Community and Town Councils' Deadline 4th August. Inform the Clerk as soon as possible of their wishes should they want their details made available on the internet.
- Derbynwyd ebôst ynglyn â 'Grantiau ar gael i wella mynediad i chwarae i blant a phobl ifanc gydag Anabledau'. Dyddiad cau 30ain o Fai 2014.
An email was received regarding 'Grants available to improve play access for children and young people with disabilities'. Closing date 30th May 2014.
- Derbynwyd ebôst ynglyn â Fforwm Partneriaeth Cyrchfan Ynys Môn. Dyddiad y Fforwm 6ed o Fehefin 2014.
An email was received regarding a Destination Anglesey Partnership Annual Forum. Date of the forum is 6th June 2014.
- Derbynwyd ebôst ynglyn â Bwletin Rheoli Adnoddau Naturiol – Mai 2014.
An email was received regarding the Natural Resource Management Bulletin – May 2014.
- Derbynwyd ebôst ynglyn â Gwyl Hâf i'r Teulu Môn ar y 21ain o Fehefin 2014.
An email was received regarding the Summer Family Festival on the 21st June 2014.
- Derbynwyd ebôst gan Menter Môn ynglyn â Seminar Lleihau Ynni ar y 28ain o Fai 2014.
An email was received from Menter Mon regarding an Energy Reduction Seminar on the 28th May 2014.
- Derbynwyd ebôst gan Cynnal Cymru ynglyn a 'Y Gymru a Garem' gyda gwahoddiad i ymuno Sgwrs Cenedlaethol.
An email was received from Cynnal Cymru regarding 'The Wales We Want' with an invitation for people to join the National Conversation.
- Derbynwyd ebôst gan Un Llais Cymru gyda hyfforddiant 'Ceisiadau Grant' ar y 24ain o Fehefin a 'Rheoli Gwybodaeth' ar y 19eg o Fehefin yng Nghaernarfon.
An email was received from One Voice Wales with training on 'Grant applications' on the 24th June and 'Information Management' on the 19th June in Caernarfon.
- Derbynwyd ebôst gan Llywodraeth Cymru ynglyn a 'Papur Gwyn Iechyd Cyhoeddus – defnyddio toiledau cyhoeddus'. Trafodwyd a teimlwyd ei fod yn bwysig i'r Cynghorwyr ymateb fel unigolyn.
An email was received from the Welsh Government regarding the 'Public Health White Paper – toilets for public use'. A discussion took place and it was felt it was important for Councillors to respond individually.
- Derbynwyd ebôst gan Rhaglen Ynys Ynni Môn gyda gwahoddiad i Arwain Twf – Digwyddiad Rhagflas - Digwyddiad am Ddim ar gyfer Perchnogion Busnes yn y Sector Ynni ar y 17eg o Fehefin 2014.
An email was received from the Anglesey Energy Island Programme with an invitation to the Leading Growth Preview Event – Free Event Energy Sector Business Owners on the 17th June 2014.
- Derbynwyd ebôst ynglyn â Nawdd Cîst Cymunedol Môn. Dyddiad cau 6ed o Fehefin 2014.
An email was received regarding the Anglesey Community Chest Funding. Closing date 6th June 2014.
- Derbynwyd ebôst ynglyn â cyfle cyffrous i gynrychioli y trydydd sector ar Gyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda. Dyddiad terfyn 9fed o Fehefin 2014.

An email was received regarding an exciting opportunity to represent the third sector on the Hywel Dda Health Council. Deadline 9th June 2014.

- Derbynwyd ebôst yn hysbysu am gyfarfod Fforwm Cyswllt sydd yn cael ei gynnal ar y 12fed o Fehefin 2014.
An email was received informing of a Liaison Forum meeting held on the 12th June 2014.
- Derbynwyd ebôst ynglyn â 'Model Rheoliadau Ariannol Newydd'. Trafodwyd a cytunwyd yw fabwysiadu.
An email was received regarding 'New Model Financial Regulations'. It was discussed and agreed to adopt.
- Derbynwyd ebôst gyda cylchlythyr Mehefin 2014 Rhun ap Iorwerth AC.
An email was received from Rhun ap Iorwerth AC with his June 2014 newsletter.
- Derbynwyd llythyr o ddiolch gan Capel Bethlehem, Carreglefn am y rhodd.
A letter was received from Bethlehem Chapel, Carreglefn for the donation.
- Derbynwyd llythyr o ddiolch gan Pwyllgor Rheoli Canolfan Gymuned Llanfechell am y rhodd.
A letter was received from the Llanfechell Community Management Committee for the donation.
- Derbynwyd llythyr gan Cyngor Sir Ynys Môn am 'Darpariaethau Mynwentydd ar Ynys Môn'. Y Clerc wedi cwblhau'r holiadur a wedi ei yrru yn ôl.
A letter was received from the Isle of Anglesey County Council regarding 'Provisions of Cemeteries on Anglesey'. The Clerk has completed the questionnaire and has sent it back.
- Derbynwyd llythyr gan Cyngor Sir Ynys Môn am 'Arolwg Mannau Chwarae a Pharciau ar Ynys Môn'. Y Clerc wedi cwblhau'r holiadur a wedi ei yrru yn ôl.
A letter was received from the Isle of Anglesey County Council regarding a 'Survey of Play Areas & Parks on Anglesey'. The Clerk has completed the questionnaire and has sent it back.
- Derbynwyd llythyr gan Celtic Array yn hysbysu bod ymgynghoriad Fferm Wynt Rhiannon wedi cael ei ehangu i Gorffennaf 3ydd 2014.
A letter was received from Celtic Array informing that the Rhiannon Wind Farm consultation has been extended to 3rd July 2014.
- Derbynwyd llythyr gan Eurus Energy/EON gyda gwahoddiad i sesiynau arddangosfa cyhoeddus Ail-bŵeru Fferm Wynt Rhyd-y-Groes.
A letter was received from Eurus Energy/EON with an invitation to public exhibition sessions for proposed Rhyd-y-Groes Wind Farm Repower.
- Derbynwyd Cylchlythyr 'Y Llais' am Wanwyn 2014/15.
'The Voice' Spring 2014/15 Newsletter was received.
- Derbynwyd holiadur gwobrwyo gan y Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol 2013/14. Dyddiad terfyn Mehefin 27ain 2014.
A survey of remuneration 2013/14 was received from the Independent Remuneration Panel for Wales. Deadline June 27th 2014.
- Derbynwyd poster am gymorthfeydd agored sydd yn mynd i gael eu cynnal gan Horizon yn yr ardal.
A poster was received from Horizon with details of open surgeries within the area.

7. Biliau / Bills

- Derbynwyd biliau gan / Bills were received from:
 - I.G. Jones (Costau gwasanaethu TWE / PAYE service costs) - **£144.**
 - C Jones (Torri gwair llwybrau cyhoeddus / Cutting of public footpaths) - **£275.**
- Derbynwyd llythyr gan Pwyllgor Rheoli Canolfan Gymuned Llanfechell yn gofyn am gymorth ariannol tuag at wariant am boiler newydd i gegin y Gymuned. Fe fydd y gôst oddeutu £1500. Trafodwyd a penderfynwyd gan bod y Ganolfan yn cael ei ddefnyddio gan y Gymuned gyfan i gyfrannu £1500 o Gronfa Melinau Gwynt.
A letter was received from the Llanfechell Community Management Committee requesting financial assistance towards the purchase of a new boiler in the Community Centre kitchen. The cost is approximately £1500. This was discussed and as it was of benefit for the whole community, it was agreed to contribute £1500 from the Windmill Fund.

8. Cynllunio / Planning

- Maes Maer, Llanfechell (38EL1507/E) – Codi gwyfren trydan uwchben y ddaear. Dim sylwadau
Maes Mawrn, Llanfechell (38EL 1507/E) – Erection of an overhead electricity line. No comments.
- Derbynwyd penderfyniadau cynllunio:
 - Faraway, Mynydd Mechell (38C303) – Caniatâd.
 - Hafodol Ganol, Rhosgoch (38C60B) – Nad yw'r cynigiad angen caniatâd blaenorol.
 - Madryn, Llanfechell (38C306/TPO) - Caniatâd.
 - Cafnan Farm, Cemlyn (38C290A) - Nad yw'r cynigiad angen caniatâd blaenorol ar gyfer y dull o ddymchwel.
 - Clegyrrog Uchaf, Carreglefn (38C250D) - Caniatâd.
 - Coed Cottages (38C47C) – Anghyfreithlon. Esboniodd y Cadeirydd bod yna gyfarfod wedi bod a bod llythyr y penderfyniad yn ddyddiedig 10fed o Ebrill 2014.

Planning decisions were received:

 - Faraway, Mynydd Mechell (38C303) – Approved.
 - Hafodol Ganol, Rhosgoch (38C60B) – Prior approval not required.
 - Madryn, Llanfechell (38C306/TPO) – Approved.
 - Cafnan Farm, Cemlyn (38C290A) - Prior approval not required for the method of demolition.
 - Clegyrrog Uchaf, Carreglefn (38C250D) – Approved.
 - Coed Cottages (38C47C) – Unlawful. The Chair explained that a meeting has already taken place regarding this matter and that the decision was made on the 10th April 2014.

9. Unrhyw fater arall / Any other matters

- Dim materion arall i'w drafod.
No other matters to discuss.

10. Dyddiad y cyfarfod nesaf / Date of next meeting

Cyfarfod nesaf NOS LUN 14eg o Orffennaf 2014 7 o'r gloch yn Ysgol Llanfechell.
Next meeting MONDAY 14th July 2014 at 7pm in Llanfechell School.

Arwyddwyd/Signed
Cadeirydd/Chairperson

Dyddiad/Date.....